Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Rhifyn y gaeaf 2014

# Eich Pensiwn

## Newyddion o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd





# Newyddion o'r EAPF

## Ail-lansio www.eapf.org.uk

**Ei gwneud yn haws i ddeall eich pensiwn EAPF**

Rydym yn ail-lansio ein gwefan ar ei gwedd newydd y gaeaf hwn ac rydym wedi ei llunio gan gadw eich anghenion mewn golwg.

Rydym hefyd wedi darparu cyfrifiannell newydd y gallwch ei defnyddio i gaffael rhagamcaniad personol o beth rydych yn debygol o'i dderbyn wrth ymddeol. Mae hyn ar gael yn eich ardal bersonol chi o wefan EAPF.

**Mae rhai o fuddion allweddol y wefan newydd i chi yn cynnwys:**

- mynediad iddi ddydd a nos trwy ddefnyddio ystod o ddyfeisiau, gliniaduron, tabledi a ffonau deallus
- manylion am y buddion gwerthfawr a gewch fel aelod
- gwybodaeth i'ch helpu i ddeall faint rydych yn ei dalu i mewn a faint a dderbyniwch
- cyfarwyddyd ar beth sydd angen i chi ei wneud os yw eich amgylchiadau'n newid
- mynediad i'r newyddion, ffurflenni ac adnoddau diweddaraf
- y gallu i ofyn cwestiynau'n uniongyrchol am unrhyw agweddau ar eich pensiwn

### Cofrestru ar gyfer EAPF Ar-lein

Er mwy gweld eich manylion pensiwn ar-lein, bydd angen i chi gofrestru ar **www.eapf.org.uk**. Unwaith eich bod yno, cliciwch y botwm 'mewngofnodi i'ch pensiwn'. Naill ai rhowch gyfeiriad e-bost dilys neu rif ffôn symudol a'ch rhif Yswiriant Gwladol (NI). Ar ôl i chi roi'r manylion hyn, byddwn yn anfon rhif PIN diogel i chi, naill ai drwy neges destun neu e-bost ac yna byddwch yn barod i gyrchu eich manylion ar-lein.

Os ydych wedi cofrestru o'r blaen ac wedi colli eich rhif PIN diogel neu eich cyfrinair, gallwch ailosod y ddau hyn ar y wefan.

Ymwelwch â ni nawr ar ein gwefan newydd i ddarganfod mwy am eich pensiwn.

## Peidiwch â chael eich dal gan sgamiau pensiwn

Mae sgamiau pensiwn yn cynyddu a chafwyd achosion ble cysylltwyd â phobl ynghylch trosglwyddo eu budd-daliadau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- honni bod y llywodraeth neu eich cynllun pensiwn wedi gofyn iddyn nhw gysylltu â chi
- honni y gallwch gael mynediad i'ch pot pensiwn cyn cyrraedd 55 oed
- eich denu ag arian ymlaen llaw
- cynnig 'arolwg pensiwn rhad ac am ddim' neu geisio eich denu gyda chyfleoedd buddsoddi 'un-tro'

Os ydych chi'n ystyried trosglwyddo eich budd-daliadau pensiwn, dylech wirio'r ffeithiau cyn dod i benderfyniad di-droi'n-ôl. Os oes gennym bryderon am eich trosglwyddiad gallwn gysylltu â chi'n uniongyrchol a gallai hyn olygu bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu eich trosglwyddiad. Rydym yn gweithredu er eich budd chi er mwyn i chi beidio â cholli eich cynilion pensiwn.

**Cofiwch:**

- peidiwch fyth â chael eich brysio na'ch cymell i ddod i benderfyniad
- os oes gennych unrhyw amheuon, siaradwch ag un o'r sefydliadau cyswllt isod

**Os ydych yn credu y cawsoch eich targedu:**

Cysylltwch â Capita (gweler y manylion cysylltu ar y dudalen gefn), neu

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Pensiynau ar **0300 123 1047** neu Action Fraud ar **0300 123 2040**.

## Beth fyddwch yn ei ganfod ar y wefan

- Buom yn brysur dros y flwyddyn ddiwethaf yn darparu atebion i nifer o ymgynghoriadau'r llywodraeth ar newidiadau sy'n effeithio arnom fel rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Fe gewch ein hatebion yn yr adran Newyddion Diweddaraf
- Mae gan y Gronfa a'ch cyflogwr gyfrifoldebau ar wahân a gallant roi nifer o ddisgresiynau ar waith o dan Reoliadau'r LGPS. Fe gewch ein datganiadau disgresiynau cyflogwr a'r Gronfa wedi'u diweddaru yn yr adran Polisïau.
- Cydnabuwyd ni gan y cylchgrawn Pensions Expert am y gwaith rydym wedi'i wneud i ail-lunio ein gwefan fel rhan o'n hymgyrch i hybu ymgysylltiad â'n haelodau. Er mwyn gweld yr erthygl, ewch i'r adran Newyddion Diweddaraf.



# Newyddion pensiwn diweddaraf

## Newidiadau pensiwn yng nghyllideb 2014

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei gynlluniau i ddiwygio cynilo am bensiwn yng Nghyllideb eleni. Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis o ran sut gallwch ddefnyddio eich cynilion ymddeol er mwyn darparu incwm. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau i fod i ddod i rym yn Ebrill 2015, ond mae rhai ohonyn nhw yn eu lle eisoes.

Mae'r newid yn effeithio'n bennaf ar bobl gyda phensiynau cyfraniad wedi'i ddiffinio (DC). Mae'r EAPF yn rhan o'r LGPS ac nid yw'n gynllun DC; mae'n gynllun pensiwn budd-dal wedi'i ddiffinio (DB). Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth ar ein gwefan am y newidiadau hyn fel byddant yn dyfod yn fwy eglur.

## Codiad yn yr oedran ymddeol isaf

Erbyn 2028 mae'r Llywodraeth yn bwriadu newid yr oedran isaf y gallwch dynnu eich budd-daliadau o 55 i 57 oed. Mae oedran pensiwn y wladwriaeth hefyd yn mynd i godi i 67 erbyn 2028. Disgwyliwn bydd yr oedran ymddeol isaf yn y dyfodol yn ddeng mlynedd cyn oedran isaf pensiwn y wladwriaeth.



## Lwfans Oes

Gallwch gynilo cymaint ag y dymunwch tuag at eich pensiwn ond cyfyngir ar faint o ryddhad treth rydych yn ei dderbyn.

Y lwfans oes yw uchafswm y cynilion pensiwn gallwch eu crynhoi dros eich oes ac os ydych yn crynhoi cynilion pensiwn sy'n uwch na hyn byddwch yn talu taliad treth pan ddaw'r budd-daliadau'n daladwy.

Mae'r lwfans oes wedi gostwng nawr o £1.5 miliwn i £1.25 miliwn ar gyfer y flwyddyn dreth hon ac mae ffurf newydd o warchodaeth, sef Gwarchodaeth Unigol 2014, ar gael hyd at 6 Ebrill 2017, os ydych yn cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ac yn bodloni meini prawf penodol. Gallwch ddysgu mwy yn ein dalen ffeithiau **Rheolaethau treth ar gynilion pensiwn** yn adran cyhoeddiadau gwefan EAPF.

Os ydych yn credu bod gennych warchodaethau oes eisoes, neu os oes gennych fudd-daliadau pensiwn sy'n cael eu dal yn rhywle arall, darparwch fanylion am y rhain i Capita, os gwelwch yn dda.



## Cynyddu eich budd-daliadau

### Help oddi wrth yr adran dreth

Am bob £100 y mis rydych yn ei gynilo mewn cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVCs) neu mewn cyfraniadau pensiwn ychwanegol (APCs), bydd y gost wirioneddol i chi yn ddim ond £80 os ydych yn talu treth ar y gyfradd sylfaenol. Os ydych yn talu treth ar y gyfradd uwch, bydd y gost wirioneddol yn ddim ond £60. Daw'r cyfraniad o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu, felly mae unrhyw arian y byddai'r adran dreth yn ei gymryd fel rheol yn mynd yn syth i'ch AVC neu APC yn lle hynny. Dyma sut mae rhyddhad treth ar eich cyfraniadau ychwanegol yn gweithio ac mae'n ddarostyngedig i derfynau treth. Mae'r adran dreth yn caniatáu i chi fuddsoddi'r arian hwn yn ffordd hon yn hytrach na'i gymryd oddi wrthych fel treth. Caiff incwm pensiwn ar ôl ymddeol ei drethu fel incwm wedi'i ennill.

### Cyfraniadau pensiwn ychwanegol (APCs)

Cyflwynodd LGPS 2014 gyfleuster newydd sy'n eich caniatáu i gynyddu eich pensiwn gan hyd at £6,500 trwy ddefnyddio cyfraniadau pensiwn ychwanegol (APCs).

Gallwch ddefnyddio APCs, yn ogystal, i brynu pensiwn 'colledig' yn ôl yn dilyn cyfnod o seibiant di-dâl fel, dyweder, seibiant mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu. Gallwch wneud taliadau rheolaidd neu lwmp swm un-tro.

Os ydych eisiau prynu pensiwn ychwanegol neu golledig edrychwch ar y gyfrifiannell ar wefan y Gronfa. Gallwch ganfod gwybodaeth fanylach, yn ogystal, ynghylch sut mae APCs yn gweithio yn adran **Rwyf eisiau talu mwy i mewn i'r Cynllun** ein gwefan.

Os ydych eisoes yn talu blynyddoedd ychwanegol neu gyfraniadau rheolaidd ychwanegol (ARCs), byddwch yn gallu parhau gyda'r cytundebau hyn ar ôl Ebrill 2014 ond ni allwch gychwyn unrhyw gytundebau newydd.

### Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVCs)

Gallwch dalu AVCs drwy ddefnyddio un o'n dau ddarparwr neu'r ddau ohonynt, sef Prudential a Standard Life. Am fwy o wybodaeth ewch i adran **Rwyf eisiau talu mwy i mewn i'r Cynllun** ein gwefan.

Mae eich AVCs yn tyfu'n ddi-dreth, gan mwyaf, gan gynyddu faint sydd gennych pan fyddwch yn ymddeol. Fel rheol gallwch dynnu hyd at 25% o'ch pot AVC fel lwmp swm arian di-dreth, yn ddarostyngedig i derfynau'r Cynllun a threth.

Os dechreuoch dalu AVCs cyn Ebrill 2014, gallwch gymryd 100% ohonynt fel lwmp swm arian, os cânt eu tynnu gyda'ch budd-daliadau prif Gynllun.

Mae AVCs yn eich caniatáu i gadw rheolaeth dros eich arian. Gallwch wneud newidiadau'n hawdd trwy ein darparwyr. Gallwch atal, addasu neu gychwyn eich AVCs unrhyw bryd. Gallwch hefyd wneud cyfraniad lwmp swm un-tro.

Os ydych yn atal neu ostwng eich taliadau, bydd hyn yn effeithio ar faint fydd gennych pan fyddwch yn ymddeol. Os ydych yn atal eich taliadau, bydd taliadau a godir arnoch yn parhau i fod yn gymwys.

# Eich Cronfa

## Crynodeb o flwyddyn y Gronfa

Bu i ni amlygu'r gwaith buom yn ei wneud fel rhan o werthusiad bob tair blynedd y Gronfa a chyflwyno'r diwygiadau i'r LGPS yn ein cylchlythyr yn y gwanwyn. Ers hynny, buom yn ymateb i nifer o ymgynghoriadau'r llywodraeth ac yn ailosod y rheoliadau LGPS newydd.

Mae'r Gronfa'n dathlu ei degfed phen-blwydd o weithio i leihau perygl hinsawdd fel rhan o'n strategaeth buddsoddi. Rydym wedi cynhyrchu adroddiad am ein hamlygiad i 'asedau â chainc garbon', sy'n edrych ar y cronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn ar fantolen cwmnïau rydym yn buddsoddi ynddynt. Gallwch weld yr adroddiad llawn yn adran **cyhoeddiadau** ein gwefan.

Rydym wedi datblygu 'mandad ar gyfer y dyfodol', sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a buddsoddi tymor hir er mwyn annog rheolwyr cronfa i fabwysiadu gweledigaeth tymor hir yn eu dull o fuddsoddi.

Os ydych eisiau gweld mwy o wybodaeth am hyn neu os hoffech edrych ar ein Hadroddiadau Blynyddol Gweithredol a Chaeëdig, ymwelwch â'n gwefan yn **www.eapf.org.uk**



## Cyflawniad

Rydym yn falch o adrodd y cafwyd gwelliant parhaus yng ngwerth asedau'r Gronfa Weithredol o £2.12 biliwn ar 31 Mawrth 2013 i £2.31 biliwn ar 31 Mawrth 2014 (codiad o £188m). Daw ein hasedau o gyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr a thwf ein buddsoddiadau.

Cyflawnodd ein strategaeth buddsoddi ganlyniadau rhagorol gydag elw o 8.4% ar gyflawniad ar gyfer y flwyddyn, sy'n gynnydd o 3.9% ar feincnod strategol y Gronfa. Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014 cafwyd gostyngiad yn asedau net y Gronfa Gaeëdig o £166.3m i £165.6m.


Roedd gennym sefyllfa gyllido gadarn o 90%, fel yr aseswyd gan ein gwerthusiad actiwaraidd bob tair blynedd ym Mawrth 2013 ac amcangyfrifwyd bod ein cyllido ym Mawrth 2014 yn 99% iachus dros ben. Mae'r EAPF yn un o'r cynlluniau a gyllidir orau yn yr LGPS.

## Cyhoeddiad electronig newydd

Cyn bo hir, byddwn yn lansio'r rhifyn cyntaf erioed o 'Spotlight' ar ein gwefan. Cyhoeddiad blynyddol newydd yw hwn sy'n darparu ffeithiau a ffigyrau ar Gronfeydd Gweithredol a Chaeëdig yr EAPF.

Mae 'Spotlight' yn darparu golwg glir ar gyflawniad ariannol ein dwy Gronfa hyd at 31 Mawrth 2014 ynghyd â dadansoddiad o'r cyfrifon a diweddariad ar aelodaeth, dyraniad asedau a chyflawniad.

## Sut rydym yn buddsoddi'r Gronfa Weithredol




## Aelodaeth o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2014

### Cronfa Weithredol

Aelodau sy'n cyfrannu **11,250**

Gohiriedig **6,883**

Pensiynwyr **5,453**

**Cyfanswm y Gronfa Weithredol 23,586**

### Closed Fund

Aelodau sy'n cyfrannu **0**

Gohiriedig **2,650**

Pensiynwyr **14,760**

**Cyfanswm y Gronfa Gaeëdig 17,410**

## Buddsoddi cyfrifol

Yn ddiweddar, cafodd y Gronfa ei nodweddu fel astudiaeth achos ar wefan Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol (PRI) fel rhan o raglen waith ar fuddsoddi gyda thema amgylcheddol a chymdeithasol.

Amlygwyd ein hagwedd tuag at fuddsoddi cyfrifol yn ddiweddar yng nghylchgrawn Responsible Investor, a oedd yn archwilio ymarfer gorau a chydnabuwyd ein Cronfa Weithredol fel buddsoddwr dylanwadol.

### Cyfrif y Gronfa Weithredol

| Cyfraniadau a budd-daliadau | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Cyfraniadau** | 91,633 | 68,038 |
| **Trosglwyddiadau** | 5,079 | 5,797 |
| **Budd-daliadau taladwy** | -70,696 | -61,193 |
| **Taliadau i ac oherwydd aelodau sy'n gadael** | -3,143 | -1,933 |
| **Treuliau gweinyddu** | -1,662 | -1,304 |
| **Ychwanegiad net o ymdrin ag aelodau** | 21,211 | 9,675 |
| Elw ar fuddsoddiadau | | |
| **Incwm buddsoddi** | 42,140 | 32,489 |
| **Trethi ar incwm** | -915 | -799 |
| **Newid yng ngwerth marchnad y buddsoddiadau** | 137,574 | 231,902 |
| **Treuliau buddsoddi** | -11,695 | -8,328 |
| **Elw net ar fuddsoddiadau** | 167,104 | 255,264 |
| **Cynnydd net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn** | 188,315 | 264,939 |
| **Asedau net agoriadol ar 1 Ebrill 2013** | 2,125,661 | 1,860,722 |
| **Asedau net y Gronfa ar 31 Mawrth 2014** | 2,313,976 | 2,125,661 |

## Manylion Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich hawl i bensiwn gallwch gysylltu â'n gweinyddwr pensiwn, Capita drwy:

- Ddefnydio'r botwm '**Cysylltwch â'r EAPF**' ar y wefan yn **www.eapf.org.uk**
- Anfon e-bost i **info@eapf.org.uk**
- Ffonio **0800 1216593**
- Anfon eich ymholiad i
**Capita**
**Hartshead House**
**2 Cutlers Gate**
**Sheffield**
**S4 7TL**